Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Gwasanaethau Gyrwyr

# Gofynion ar gyfer tynnu ôl-gerbydau ym Mhrydain Fawr

Am ragor o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/browse/driving**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
INVESTORS IN PEOPLE
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

INF30W
5/22

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1** | Cyflwyniad | 3 |
| **2** | Trwyddedau gyrru ceir a ddelir ers cyn 1 Ionawr 1997 | 3 |
| **3** | Trwyddedau lorïau a bysiau a ddelir ers 19 Ionawr 1997 | 3 |
| **4** | Trwyddedau gyrru a gyhoeddwyd ers 19 Ionawr 1997 | 3 |
| **5** | Disgrifiadau o gategorïau cerbydau | 4 |
| | Os wedi pasio prawf cyn 19 Ionawr 2013 | 4 |
| | Os wedi pasio prawf ers 19 Ionawr 2013 | 8 |
| **6** | Uwchraddio hawl i dynnu ôl-gerbydau | 10 |
| **7** | Hawl dros dro i dynnu ôl-gerbydau | 11 |
| **8** | Gwybodaeth pellach | 11 |


## Nodyn pwysig

Mae'r daflen hon yn ymwneud â thrwyddedu gyrwyr yn unig. I gael manylion am ofynion sy'n ymwneud â phwysau a dimensiynau ôl-gerbydau, ffoniwch **0300 330 3000.**

Prynu cerbyd?

Nid yw'r dreth yn drosglwyddadwy mwyach felly rhaid i chi ei threthu cyn i chi ei ddefnyddio.

**www.gov.uk/vehicletaxrules**

# 1 Cyflwyniad

**Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth am newidiadau i'r hawl i dynnu ôl-gerbydau.**

# 2 Trwyddedau gyrru ceir a ddelir ers cyn 1 Ionawr 1997

Os basioch eich prawf gyrru car cyn 1 Ionawr 1997, yn arferol gewch gadw eich hawl bresennol i yrru cerbyd gydag ôl-gerbyd, gyda phwysau cyfunol o 8.25 tunnell fetrig (dangosir ar eich trwydded fel C1E (107) hyd nes daw eich trwydded i ben yn 70 oed. Mae hefyd gennych hawl i yrru bws mini gydag ôl-gerbyd sy'n pwyso dros 750cg. Os ydych am gadw'r hawliau hyn ar ôl 70 oed bydd angen i chi wneud cais am drwydded i yrru lori, bws neu fws mini (D2W) a hefyd cwblhau 'Adroddiad Archwiliad Meddygol' (D4), sydd wedi cael ei lofnodi gan optometrydd neu optegwr a meddyg, a bodloni'r safonau meddygol uwch ar gyfer gyrwyr bysiau a loriau.

Os oes gennych is-gategori C1E (107) ar eich trwydded yrru a rydych am yrru cerbyd ag ôl-gerbyd gyda phwysau cyfunol hyd at 12 tunnell fetrig gallwch wneud cais am hawl dros dro i'r is-gategori C1+E er mwyn sefyll prawf. Nid oes angen i chi sicrhau hawl i is-gategori C1 yn gyntaf, ond mae'n rhaid i yrwyr fodloni safonau meddygol uwch a phasio prawf theori categori C a phrawf ymarferol is-gategori C1+E.

# 3 Trwyddedau loriau a bysiau a ddelir ers 1 Ionawr 1997

Ers 1 Ionawr 1997, os ydych yn dal hawl categori C neu D rydych wedi eich cyfyngu i dynnu ôl-gerbydau sy'n pwyso hyd at 750cg. Mae'n rhaid dal categori C+E neu D+E i dynnu ôl-gerbydau sy'n pwyso mwy na hyn.

# 4 Trwyddedau gyrru a gyhoeddwyd ers 1 Ionawr 1997

Os gwnaethoch basio prawf car ar neu ar ôl 1 Ionawr 1997, mae'n rhaid i chi basio prawf gyrru ychwanegol i gael hawl i yrru categorïau C1, C1E, C, CE, D1, D1E, D, DE. Ers 16 Rhagfyr 2021 os ydych wedi pasio prawf car (B) gallwch yrru car yn awtomatig gydag ôl-gerbyd (BE).

# 5 Disgrifiadau o gategorïau cerbydau

Mae’r holl bwysau a ddyfynnir ar gyfer y cerbydau perthnasol yn cyfeirio at yr ‘Uchafswm Màs Awdurdodedig’ (MAM). Cyfanswm pwysau’r cerbyd wedi’i lwytho yw hyn.

## Disgrifiadau o gategorïau cerbydau os pasiwyd prawf cyn 19 Ionawr 2013

| Categori | Disgrifiad | Oed ieuengaf | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| B | **Ceir**<br><br>• Ceir ag Uchafswm Màs Awdurdodedig(MAM) o 3500cg ar y mwyaf, ac ynddynt wyth ar y mwyaf o seddau teithwyr, heb neu gydag ôl-gerbyd hyd at 750cg.<br>• Fel categori B ond gydag ôl-gerbyd a phwysau dros 750cg. Ni all pwysau’r cerbyd a’r ôl-gerbyd gyda’i gilydd bwyso dros 3,500cg. | 17 | Gweler nodyn 1 a 6 |
| | **Ceir awtomatig**<br>Fel categori B gyda trawsyriant awtomatig. | 17 | Gweler nodyn 1 |
| BE | **Ceir gydag ôl-gerbydau**<br><br>• Cyfuniadau o gerbydau sy’n cynnwys cerbyd yng nghategori B ac ôl-gerbyd, dros 750cg. | 17 | |
| C1 | **Cerbydau canolig eu maint**<br><br>• Cerbydau rhwng 3,500cg a 7,500cg a gynlluniwyd ac a adeiladwyd i gludo dim mwy nag wyth teithiwr yn ogystal â’r gyrrwr gydag ôl-gerbyd hyd at 750cg. | 18 | Gweler nodyn 5 |

| Categori | Disgrifiad | Oed ieuengaf | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| **C1E** | **Cerbydau canolig eu maint gydag ôl-gerbydau**<br><br>• Cerbydau rhwng 3,500cg a 7,500cg, gydag ôl-gerbyd dros 750cg a gynlluniwyd ac a adeiladwyd i gludo dim mwy nag wyth teithiwr yn ogystal â'r gyrrwr – pwysau cyfunol heb fod un fwy na 12,000cg. | 18 | Gweler nodia-dau 2, a 5 |
| **C** | **Cerbydau nwyddau mawr**<br><br>• Cerbydau dros 3,500cg gydag ôl-gerbyd hyd at 750cg, a gynlluniwyd ac a adeiladwyd i gludo dim mwy nag wyth teithiwr yn ogystal a'r gyrrwr. | 21 | Gweler nodyn 2 |
| **CE** | **Cerbydau mawr gydag ôl-gerbydau**<br><br>• Cerbydau dros 3,500cg a gynlluniwyd ac a adeiladwyd i gludo dim mwy nag wyth teithiwr yn ogystal â'r gyrrwr gydag ôl-gerbyd hyd at 750cg | 21 | Gweler nodyn 2 |
| **D1** | **Bysiau mini**<br><br>• Cerbydau gyda dim mwy na 16 o seddi teithwyr yn ogystal a'r gyrrwr a gydag uchafswm hyd sy'n ddim mwy nag wyth metr gydag ol-gerbyd hyd at 750cg. | 21 | Gweler nodia-dau 3 a 5 |
| **D1E** | **Bysiau mini gydag ôl-gerbydau**<br><br>• Cerbydau gyda dim mwy na 16 o seddi teithwyr yn ogystal â'r gyrrwr a gydag uchafswm hyd sy'n ddim mwy nag wyth metr gydag ôl-gerbyd hyd at 750cg âr yr amod nad yw MAM y cyfuniad a ffurfiwyd yn fwy na 12,000cg. | 21 | Gweler nodia-dau 3 a 5 |

| Categori | Disgrifiad | Oed ieuengaf | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| D | **Bysiau**<br>• Unrhyw fws a gynlluniwyd ac a adeiladwyd i gludo mwy nag wyth teithiwr yn ogystal â'r gyrrwr gydag ôl-gerbyd hyd at 750cg. | 21 | Gweler nodiadau 3 a 4 |
| DE | **Bysiau gydag ôl-gerbydau**<br>• Unrhyw fws a gynlluniwyd ac a adeiladwyd i gludo mwy nag wyth teithiwr yn ogystal â'r gyrrwr gydag ôl-gerbyd dros 750cg. | 21 | Gweler nodiadau 3 a 4 |

## Nodyn 1

Os ydych yn 16 oed ac yn derbyn elfen symudedd y Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP) neu'r Taliad Anabledd Oedolion (ADP) ar y gyfradd uwch, elfen symudedd y Taliad Anabledd Plant (CDP) ar y gyfradd uwch neu wedi gwneud cais am PIP ar ôl derbyn elfen symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yn flaenorol ar y gyfradd uwch.

## Nodyn 2

Gallwch yrru pan rydych yn 17 oed os ydych yn aelod o'r lluoedd arfog.

Gallwch yrru pan rydych yn 18 oed os fydd un o'r canlynol yn gymwys:

- rydych wedi pasio eich prawf gyrru a Chymhwyster Cychwynnol y Dystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol (CPC Gyrrwr)
- rydych yn dysgu gyrru neu yn cymryd prawf gyrru am y categori yma neu Gymhwyster Cychwynnol CPC
- rydych yn dilyn cwrs hyfforddi galwedigaethol cenedlaethol i ennill Cymhwyster Cychwynnol CPC
- roeddech wedi derbyn eich trwydded yrru cyn 10 Medi 2009, mae'n rhaid i chi ddilyn hyfforddiant cyfnodol y CPC pob 5 mlynedd.

## Nodyn 3

Gallwch yrru pan rydych yn 17 oed os ydych yn aelod o'r lluoedd arfog.

Gallwch yrru'r cerbydau hyn pan rydych yn 18 oed os oes un o'r canlynol yn gymwys:

(i) Os ydych yn dysgu i naill ai:

- sefyll eich prawf gyrru Cerbyd Cludo Teithwyr (PCV)

- cael eich Cymhwyster Cychwynnol (CPC) i Yrwyr

(ii) Os ydych wedi pasio eich prawf gyrru PCV a Chymhwyster Cychwynnol CPC, gallwch yrru os:

- rydych yn cludo teithwyr ar wasanaeth rheolaidd ble nad yw'r daith yn fwy na 31 milltir neu
- nad ydych yn cludo teithwyr
- rydych yn gyrru cerbyd mewn dosbarth a gynhwysir yn is-gategori D1
- nid ydych yn gyrru bws neu fws mini dramor

(iii) Ers 10 Medi 2008, gall gyrwyr sy'n llwyddo mewn prawf PCV ac yn gyrru ar drwydded gweithredwr bws, neu drwydded bws mini neu drwydded bws cymunedol, yrru cyn belled:

- a'u bod yn cludo teithwyr ar wasanaeth rheolaidd ble nad yw'r daith yn fwy na 31 milltir neu
- nad ydynt yn cludo teithwyr
- a'u bod yn gyrru cerbyd mewn dosbarth a gynhwysir yn is-gategori D1
- nad ydynt yn gyrru bws neu fws mini dramor.

Gallwch yrru yn 20 oed ar ôl pasio prawf gyrru PCV a Chymhwyster Cychwynnol CPC i Yrwyr.

Am gyngor pellach am brofion gyrru a CPC i Yrwyr, cysylltwch â'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) drwy ffonio 0300 200 1122 neu drwy ebostio **drivercpc@dvsa.gov.uk**

## Nodyn 4

Bydd angen hawl category D arnoch i yrru bws cymalog (er enghraifft 'bendibus'). Gallwch gael rhagor o fanylion yn **www.gov.uk/browse/driving** neu drwy ffonio 0300 790 6801.

## Nodyn 5

Os gwnaethoch basio'ch prawf ar gyfer categori B neu B awtomatig cyn 1 Ionawr 1997, bydd eich trwydded eisoes yn dangos C1, C1E (8.25 tunnell), D1, D1E (nid i'w hurio nac am dâl) fel hawl.

- Os ydych am yrru cerbydau canolig neu fawr, bysiau mini neu fysiau yn y Gymuned Ewropeaidd neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, mae'n rhaid ichi wneud cais am yr hawl dros dro berthnasol.
- Rhaid ichi beidio â gwneud cais am brofion theori neu brofion ymarferol hyd nes dangosir yr hawl dros dro ar eich trwydded.

## Nodyn 6

Mae eithriad yn bodoli ar gyfer deiliaid categori B, i yrru beiciau tair olwyn modur mawr yng nghategori A, cyn belled â'u bod dros 21 oed.

## Disgrifiadau o gategorïau cerbydau os pasiwyd prawf ers 19 Ionawr 2013

Mae'r tabl isod yn dangos y categorïau cerbydau sydd wedi newid ers 19 Ionawr 2013 yn unig. Am gategorïau cerbydau sydd heb newid, gweler tabl 'Disgrifiadau o gategorïau cerbydau cyn 19 Ionawr 2013'.

| Categori | Disgrifiad | Oed ieuengaf | Nodiadau |
|---|---|---|---|
| BE | **Ceir gydag ôl-gerbydau**<br><br>• Cyfuniadau o gerbydau sy'n cynnwys cerbyd yng nghategori B ac ôl-gerbyd, lle nad yw'r cyfuniad yn dod o fewn categori B a MAM yr ôl-gerbyd neu led ôl-gerbyd rhannol ddim yn fwy na 3,500cg. | 17 | Gweler nodyn 2 |
| D1 | **Bysiau mini**<br><br>• Cerbydau heb fwy nag 16 o seddi teithwyr yn ogystal â'r gyrrwr a gydag uchafswm hyd o ddim mwy nag wyth metr gydag ôl-gerbyd hyd at 750cg. | 21 | Gweler nodia-dau 1 a 2 |
| D | **Bysiau**<br><br>• Unrhyw fws a gynlluniwyd ac a adeiladwyd i gludo mwy nag wyth o deithwyr yn ogystal â'r gyrrwr, gydag ôl-gerbyd hyd at 750cg. | 24 | Gweler nodyn 1 |
| D1E | **Bysiau mini gydag ôl-gerbyd**<br><br>• Cerbydau heb fwy nag 16 o seddi teithwyr yn ogystal â'r gyrrwr a gydag uchafswm hyd o ddim mwy nag wyth metr gydag ôl-gerbyd dros 750cg, cyn belled a bod MAM y cyfuniad cerbydau heb fod yn fwy na 12,000cg. | 21 | Gweler nodia-dau 1 a 2 |
| DE | **Bysiau gydag ôl-gerbyd**<br><br>• Unrhyw fws a gynlluniwyd ac a adeiladwyd i gludo mwy nag wyth o deithwyr yn ogystal â'r gyrrwr, gydag ôl-gerbyd dros 750cg. | 24 | Gweler nodyn 1 |

## Nodyn 1

Gallwch yrru pan rydych yn 17 oed os ydych yn aelod o'r lluoedd arfog.

Gallwch yrru pan rydych yn 18 oed os oes un o'r canlynol yn bodoli:

(i) Os ydych yn dysgu i naill ai:

- sefyll eich prawf gyrru Cerbyd Cludo Teithwyr (PCV) neu
- cael eich Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol (CPC Gyrrwr)

(ii) Os ydych wedi pasio eich prawf gyrru PCV a Chymhwyster Cychwynnol CPC i Yrwyr, gallwch yrru os:

- rydych yn cludo teithwyr ar wasanaeth rheolaidd ble nad yw'r daith yn fwy na 31 milltir neu
- nad ydych yn cludo teithwyr
- rydych yn gyrru cerbyd mewn dosbarth a gynhwysir yn is-gategori D1
- nad ydych yn gyrru bws neu fws mini dramor.

(iii) Ers 10 Medi 2008, gall gyrwyr sy'n llwyddo mewn prawf PCV  ac yn gyrru ar drwydded gweithredwr bws, neu drwydded bws mini neu drwydded bws cymunedol, yrru cyn belled:

- a'u bod yn cludo teithwyr ar wasanaeth rheolaidd ble nad yw'r daith yn fwy na 31 milltir neu
- nad ydynt yn cludo teithwyr
- a'u bod yn gyrru cerbyd mewn dosbarth a gynhwysir yn is-gategori D1
- nad ydynt yn gyrru bws neu fws mini dramor.

Gallwch yrru pan yn 20 os ydych wedi pasio eich prawf gyrru PCV a Chymhwyster Cychwynnol CPC i Yrwyr.

Gallwch yrru yn 21 os:

- mae'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio gan y frigâd dân neu am gadw trefn gyhoeddus
- ydych yn sefyll profion ffordd ar gyfer gwaith cynnal a chadw neu atgyweirio
- oes hawl gennych i yrru cerbyd cyn 19 Ionawr 2013.

Am gyngor pellach am brofion gyrru a CPC i Yrwyr, cysylltwch â'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) drwy ffonio **0300 200 1122.**

### Nodyn 2

Os wnaethoch basio'ch prawf categori B rydych yn awtomatig yn cael yr hawl i gategori BE. Os wnaethoch basio'ch prawf am gategori B cyn 1 Ionawr 1997 bydd eich trwydded eisoes yn dangos yr hawl i C1, C1E (8.25 tunnell), D1 (ddim er eich budd nac am dâl) a D1E (ddim er eich budd nac am dâl).

## 6 Uwchraddio hawl i dynnu ôl-gerbydau

Yn gyffredinol, mae angen i yrwyr sefyll prawf gyrru ychwanegol ar gyfer pob categori neu is-gategori hawl. Ond mae yna rai eithriadau penodol i hyn os yw gyrwyr eisoes wedi pasio prawf sy'n rhoi hawl ar gyfer cerbyd mwy neu gerbyd cyfatebol ei faint.

I gael manylion profion gyrru, cysylltwch â'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) ar **0300 200 1122**.

| **Enghreifftiau** | **Categori pasio prawf** | **Uwchraddio hawl ar gyfer cerbydau mwy neu gyfatebol eu maint** |
|---|---|---|
| 1 | C1+E | O hawl categori D1 i D1+E |
| | Noder: nid yw pasio prawf ar gyfer is gategori D1+E yn uwchraddio is gategori C1 i C1+E am fod maint yr ôl-gerbyd yn is gategori D1+E yn llai na hynny ar gyfer prawf is gategori C1+E. | |
| 2 | C+E | Is gategoriau C1 to C1E ac is gategoriau C1 a C1+E, ac, os dalier categori D neu is gateogri D1, bydd y rhain yn cael eu hawchraddio i gategori D+E neu is gategori D1+E. |
| | Noder: Ni fydd CE(102) yn uwchraddio D i DE ond bydd yn uwchraddio unrhyw B, C1 neu D1 y dalier. | |
| 3 | D+E | O is gategori D1 i is gategori D1+E. |
| | Noder: Nid yw pasio D+E yn uwchraddio hawl i gat-egori C neu is gategori C1 am fod maint yr ôl-gerbyd ar gyfer categori prawf D+E yn llai na'r hynny ar gyfer categori C+E neu is gategori C1+E. | |

## 7 Hawl dros dro i dynnu ôl-gerbydau

Ers Rhagfyr 2021, nid oes angen ichi sefyll prawf mewn cerbyd anhyblyg (er enghraifft C neu D) cyn sefyll prawf mewn cerbyd trwm ag ôl-gerbyd (C+E neu D+E).

## 8 Gwybodaeth pellach

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn **www.gov.uk/browse/driving** neu mae'r ffurflenni canlynol ar gael drwy ffonio 0300 790 6801:

**INF28W** – Gyrru bws mini

**INF38** – Gyrru ym Mhrydain Fawr fel Ymwelydd neu Breswylydd Newydd

**INF52W** – Cerbydau mawr gallwch chi yrru gan ddefnyddio eich trwydded car neu lori

### Os oes gennych unrhyw gwestiynau

Gallwch gael mwy o wybodaeth am drwyddedau gyrru trwy ffonio Ymholiadau Cwsmeriaid ar 0300 790 6801. Mae'r llinellau ar agor rhwng 8am a 7pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 8am a 2pm ar ddydd Sadwrn. Bydd system awtomatig yn eich ateb, ond byddwch yn gallu siarad â theleffonydd yn ystod oriau swyddfa. Byddwn yn monitro neu'n recordio rhai galwadau at ddibenion ansawdd.

Os ydych am anfon e-bost atom, ewch i **www.gov.uk/contact-the-dvla** a dewiswch yr opsiwn sydd arnoch ei angen.

Os ydych yn fyddar neu'n drwm eich clyw, a chithau â ffôn testun, dylech ffonio **0300 123 1278**.

**Gallwch gael mwy o wybodaeth am brofion gyrru wrth ffonio DVSA ar 0300 200 1122.**

**Os ydych wedi newid eich enw, eich cyfeiriad neu'ch cerbyd, rhowch wybod i ni ar unwaith. Os na fyddwch yn gwneud hyn, mae'n bosib y bydd yn rhaid ichi dalu dirwy o £1000.**

Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

# Gwasanaethau digidol DVLA

## Arbedwch amser - gwnewch ef ar-lein!

- **Cofrestriadau personol –** ewch â rhif cofrestru oddi ar eich cerbyd a gosod rhif cofrestru ar eich cerbyd
- **Cofrestru cerbyd –** dywedwch wrthym eich bod wedi prynu neu werthu cerbyd
- **Trwyddedu cerbydau –** trethu neu wneud HOS ar eich cerbyd
- **Cofrestru ôl-gerbyd –** cofrestrwch eich ôl-gerbyd i'w gymryd dramor
- **Trwyddedau gyrru –** o wneud cais am eich trwydded dros dro i edrych ar eich manylion gyrrwr.

Am holl wasanaethau ar-lein diogel y DVLA, defnyddiwch y wefan GOV.UK swyddogol yn: gov.uk/browse/driving

**youtube.com/dvlagov** **@DVLAgovuk** **facebook.com/dvlagovuk**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID